Busnes Cymru | Business Wales

# CEFNOGI MERCHED ENTREPRENEURAIDD YNG NGHYMRU

## CYNLLUN GWEITHREDU DWY FLYNEDD

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# ARGYMHELLIAD

# UN

Gwella'r ymgysylltu â darpar merched entrepreneuriaidd er mwyn deall yn well y rhwystrau sy'n atal eu cyfranogiad mewn gweithgarwch sefydlu busnes.



Joy Ogeh-Hutfield, Joy Transformation Coach

## Camau gweithredu

Cynnal tri grŵp ffocws rhanbarthol y flwyddyn ledled Cymru i weithio gyda merched sy'n ystyried sefydlu busnes a nodi'r sbardunau a'r anawsterau maent yn eu hwynebu. Ffocws penodol y gweithdai fydd canfod y rhwystrau sy'n atal merched rhag cymryd rhan mewn gweithgarwch sefydlu busnes.

Defnyddio canlyniadau'r grwpiau ffocws fel sail i ddarparu gwasanaethau Busnes Cymru.

## Canlyniadau disgwyliedig

Gwasanaeth cefnogi mwy hyblyg, teilwredig ac ymatebol sy'n deall ac yn ymateb i ofynion merched sy'n sefydlu busnes yng Nghymru.

## Amserlenni

Gwanwyn, Hydref a Gaeaf 2019

Gwanwyn, Hydref a Gaeaf 2020

ARGYMHELLIAD

# DAU

Teilwra gwasanaethau cefnogi busnesau ymhellach i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r rhywiau ac yn diwallu anghenion penodol merched entrepreneuraidd, gan gydnabod eu nodweddion, eu diwylliant a'u hamgylchiadau gwahanol.

| Camau gweithredu | Canlyniadau disgwyliedig | Amserlenni |
| --- | --- | --- |
| Cynnwys yn y gwasanaethau cefnogi busnesau presennol dargedu ychwanegol ar ddarpar ferched entrepreneuraidd a merched entrepreneuraidd sefydledig a hybu gwasanaethau mewn ffordd sy'n gweddu'n well i ferched a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u dewisiadau o ran darparu gwasanaethau. | Gwasanaeth gan Fusnes Cymru sy'n ymwybodol o'r rhywiau ac yn ymateb i ofynion merched entrepreneuraidd. | Gwanwyn 2019 |
| Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r rhywiau ychwanegol i gynghorwyr Busnes Cymru a staff perthnasol eraill sy'n gweithio gyda merched entrepreneuraidd. | Cynghorwyr Busnes Cymru i gydnabod a deall y rhwystrau posibl y bydd merched yn eu hwynebu wrth sefydlu, cynnal neu ddatblygu eu busnes ac ymateb i'w gofynion | Haf 2019 |
| Edrych drwy lens y rhywiau ar hysbysebion, deunyddiau a thudalennau gwe Busnes Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn ymatebol i ferched entrepreneuraidd. | Holl hysbysebion, deunyddiau a thudalennau gwe Busnes Cymru i fod â'u ffocws ar y rhywiau ac yn fwy ymatebol i ferched entrepreneuraidd. | Marwrth 2019 |
| Datblygu canllaw arfer gorau ar sefydlu a gweithredu unedau deori / canolfannau gweithio ar y cyd a busnes sy'n cynnwys annog defnyddio llefydd a diwallu anghenion merched entrepreneuraidd yn well. | Canllaw ymarferol i'r gymuned cefnogi busnesau (yn darparu unedau deori / canolfannau gweithio ar y cyd a busnes) i annog a chefnogi merched entrepreneuraidd yn well. | Hydref 2019 |

ARGYMHELLIAD

# TRI

Cynyddu argaeledd cynghorwyr a mentoriaid busnes sy'n ferched busnes a sicrhau bod merched yn ymwybodol o'r dewis o wasanaeth sydd ar gael iddynt.

| Camau gweithredu | Canlyniadau disgwyliedig | Amserlenni |
|---|---|---|
| Tynnu sylw at raniad rhywiau cynghorwyr busnes a mentoriaid busnes ar wefan Busnes Cymru a thynnu sylw at yr opsiwn i wneud cais am gynghorydd neu fentor sy'n ferch. | Bydd merched sy'n entrepreneuriaid yn gallu gweld yn glir bod cynghorwyr busnes sydd naill ai'n ddynion neu'n ferched ar gael a bod yr opsiwn i ofyn am ferch ar gael. | Gwanwyn 2019 |
| Parhau i recriwtio merched yn gynghorwyr a mentoriaid busnes ar gyfer y gwasanaeth. | Digon o gynghorwyr a mentoriaid sy'n ferched ar gael fel rhan o wasanaeth Busnes Cymru, i fodloni'r galw. | Parhaus dros y cyfnod o ddwy flynedd |
| Diweddaru tudalennau mentora gwefan Busnes Cymru er mwyn adlewyrchu'r mentoriaid sydd ar gael ac, yn benodol, tynnu sylw at argaeledd mentoriaid sy'n ferched fel rhan o'r gwasanaeth. | Cynnydd mewn ymwybyddiaeth o argaeledd mentoriaid sy'n ferched fel rhan o wasanaeth Busnes Cymru. | Haf 2019 |
| Parhau i godi ymwybyddiaeth, proffil ac argaeledd mentoriaid sy'n ferched drwy gyfrwng gwasanaeth mentora Busnes Cymru. | Mwy o ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth mentora i gleientiaid sy'n defnyddio gwasanaeth Busnes Cymru. | Parhaus dros y cyfnod o ddwy flynedd |
| Gweithio gyda Creu Sbarc i ddarparu gwybodaeth ar-lein am yr holl wasanaethau mentora busnes yng Nghymru. | Mwy o ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o wasanaethau mentora sydd ar gael yng Nghymru. | Gaeaf 2019 |

ARGYMHELLIAD

# PEDWAR

Gwella'r wybodaeth am argaeledd cyllid i ferched entrepreneuraidd, a sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau diangen ar ddyfarnu cyllid.



In The Welsh Wind Distilery, Aberteifi

| Camau gweithredu | Canlyniadau disgwyliedig | Amserlenni |
|---|---|---|
| Parhau i weithio mewn partneriaeth â Banc Datblygu Cymru i edrych drwy lens y rhywiau ar yr opsiynau cyllid sydd ar gael. Byddai hyn yn cynnwys monitro a dadansoddi'r broses ymgeisio a chanlyniad y cyllid a ddyfernir yn ôl rhyw. | Canlyniad – deall yn well a yw'r opsiynau cyllid yr un mor atyniadol i ddynion a merched ac a oes tystiolaeth i awgrymu bod meysydd a all beri i ferched beidio â gwneud cais am y cyllid. | Gwanwyn 2020 |
| Ymgynghori â'r gymuned gyllid ehangach yng Nghymru drwy gyfres o dri gweithdy i annog dulliau teilwredig o weithredu wrth ddarparu cyllid i ferched entrepreneuraidd. | Gwell dealltwriaeth o ddarpariaeth bresennol y gymuned gyllid ehangach i ferched entrepreneuraidd a chynnydd at fenthyca gwell a mwy gweladwy gyda'i ffocws ar y rhywiau. | Hydref 2019 |

# ARGYMHELLIAD PUMP

Cydnabod a hybu llwyddiant merched entrepreneuraidd fel modelau rôl i eraill.



QOL, Abertawe

| Camau gweithredu | Canlyniadau disgwyliedig | Amserlenni |
| --- | --- | --- |
| Parhau i adnabod a hybu llwyddiant merched entrepreneuraidd drwy greu a llunio astudiaethau achos ychwanegol sy'n amlwg i ddefnyddwyr posibl gwasanaeth Busnes Cymru. | Casgliad ehangach a mwy cynrychioliadol o astudiaethau achos cyfredol sy'n hybu negeseuon cadarnhaol i ferched sydd eisiau bod yn entrepreneuriaid. | Parhaus dros y cyfnod o ddwy flynedd |
| Ceisio sicrhau cydbwysedd cyfartal o fodelau rôl dynion a merched i hybu entrepreneuriaeth yng ngwasanaethau Busnes Cymru, i gynnwys Entrepreneuriaeth Ieuenctid. | | Gaeaf 2019 |

A R G Y M H E L L I A D

# CHWECH

Gwella mynediad i ffynonellau gwybodaeth cefnogi busnes ac annog rhwydweithio rhwng merched entrepreneuraidd a'r gymuned fusnes ehangach.

| Camau gweithredu | Canlyniadau disgwyliedig | Amserlenni |
| --- | --- | --- |
| Datblygu tudalen ar wefan Busnes Cymru sy'n tynnu sylw at ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i ferched entrepreneuraidd. | Mwy o ymwybyddiaeth o'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i ferched yng Nghymru | Ionawr 2019 |
| Codi ymwybyddiaeth o rwydweithiau sy'n cefnogi merched entrepreneuraidd drwy lunio cofrestr o rwydweithiau a'i chyhoeddi ar wefan Busnes Cymru. | Mwy o ymwybyddiaeth o'r rhwydweithiau sydd ar gael i berchnogion busnes ledled Cymru. | Parhaus dros y cyfnod o ddwy flynedd |
| Hybu manteision rhwydweithio ymhlith merched sy'n defnyddio gwasanaethau Busnes Cymru. | Gwell dealltwriaeth o'r manteision busnes y gall rhwydweithio eu darparu i berchnogion busnes. | Parhaus dros y cyfnod o ddwy flynedd |
| Cefnogi Creu Sbarc i sefydlu a datblygu cysylltiadau â'r eco-system cefnogi busnes ehangach, gan ysgogi cynnydd yn argaeledd a'r defnydd o gefnogaeth deilwredig, hawdd ei defnyddio, gweladwy a chysylltiedig ar gyfer merched entrepreneuraidd. | Lefel uwch o gefnogaeth â'i ffocws ar y rhywiau i ferched entrepreneuraidd yng Nghymru. | |

# ARGYMHELLIAD

# SAITH

Datblygu canllaw arfer da ac annog sefydliadau cefnogi busnesau i'w fabwysiadu.



MamGu Welshcakes, Solva

| Camau gweithredu | Canlyniadau disgwyliedig | Amserlenni |
| --- | --- | --- |
| Llunio a dosbarthu canllaw arfer da sy'n adnabod ac yn hybu arferion gorau i alluogi'r gymuned cefnogi busnes ehangach yng Nghymru i adolygu a theilwra ei gwasanaethau i ferched entrepreneuraidd. | Darparwyr cefnogi busnes i ddeall yn well sut i sicrhau bod eu gwasanaethau'n sensitif i'r rhywiau ac felly'n cynyddu lefel y gwasanaeth i ferched entrepreneuraidd yng Nghymru. | O Ionawr 2019 |
| Cynnal cyfres o sioeau teithiol i hybu'r Canllaw ymhlith y gymuned cefnogi busnes ehangach yng Nghymru. | Lefel uwch o ymwybyddiaeth o'r canllaw arfer da ymhlith y gymuned cefnogi busnes a'r manteision o ddarparu gwasanaeth sensitif i'r rhywiau yng Nghymru. | Gwanwyn 2019 |

A R G Y M H E L L I A D

# WYTH

Darparu cefnogaeth fusnes ymarferol cyn sefydlu busnes sy'n annog ac yn cefnogi merched i feithrin eu hunanhyder.



Celtic Strength, Abertawe

| Camau gweithredu | Canlyniadau disgwyliedig | Amserlenni |
|---|---|---|
| Comisiynu cyfres o brosiectau cymunedol a fydd yn gweithio gydag unigolion i hybu entrepreneuriaeth ymhlith y rhai a dangynrychiolir mewn sefydlu busnes, yn benodol, merched.<br><br>Bydd y prosiectau'n canolbwyntio ar feithrin hyder, creu syniadau busnes a goresgyn rhwystrau sy'n atal cymryd rhan mewn gweithgareddau sefydlu busnes. | Bydd yr hyn a ddysgir ar y dechrau o'r prosiectau hyn yn sail uniongyrchol (ac fel sy'n briodol) i'r cynllunio yn y dyfodol ar wasanaethau prif ffrwd. | Canfyddiadau adolygiad Hydref 2019 |

## ARGYMHELLIAD

# NAW

Parhau i weithio gyda merched ifanc i hybu a datblygu agweddau entrepreneuraidd.





RainbowBiz, Shotton

| Camau gweithredu | Canlyniadau disgwyliedig | Amserlenni |
|---|---|---|
| Parhau i hybu gwerth entrepreneuriaeth ymhlith cenedlaethau'r dyfodol. Defnyddio modelau rôl cadarnhaol i annog merched ifanc i ddatblygu meddylfryd entrepreneuraidd a chael hyder i ddatblygu eu syniadau i sefydlu busnes. | Cyfradd uwch o fwriadau dyhead ymhlith merched ifanc. | Adolygiad Gaeaf 2019 |
| Monitro bwriadau dyhead merched ifanc i sefydlu busnes drwy raglen Syniadau Mawr Cymru. | | |

ARGYMHELLIAD

# DEG

Sicrhau bod gwobrau busnes yng Nghymru'n mynd ati i annog cydnabyddiaeth i ferched entrepreneuraidd a sicrhau sefydlu panel cytbwys o ran y rhywiau a meini prawf barnu â'u ffocws ar y rhywiau.



The Little Stitchery Sewing Rooms, Ystradgynlais

| Camau gweithredu | Canlyniadau disgwyliedig | Amserlenni |
|---|---|---|
| Bydd yr holl wobrau busnes a noddir gan Lywodraeth Cymru'n mynd ati i annog cydnabyddiaeth i ferched entrepreneuraidd. | Dull o weithredu â'i ffocws ar y rhywiau gyda'r holl wobrau busnes a noddir gan Lywodraeth Cymru â phanel sydd â chydbwysedd rhwng y rhywiau. Yn y pen draw bydd hyn yn annog mwy o fusnesau sy'n eiddo i ferched i ymgeisio am wobrau busnes. | Gaeaf 2020 |
| Yr holl wobrau busnes a noddir gan Lywodraeth Cymru'n cynnwys panel sydd â chydbwysedd rhwng y rhywiau a meini prawf barnu â'u ffocws ar y rhywiau. | | |

# GRŴP ADOLYGU

Yn ychwanegol at y deg argymhelliad ac ymateb uchod, bydd Llywodraeth Cymru'n sefydlu grŵp adolygu i adrodd yn ôl i Fwrdd Strategol Busnes Cymru ar gynnydd y camau gweithredu hyn. Bydd y grŵp adolygu hwn yn parhau i adolygu a monitro'r defnydd o wasanaethau Busnes Cymru gan ferched entrepreneuraidd ac yn adeiladu ar y camau gweithredu a gyflwynir yn y ddogfen hon.